# Symbolau a digidau - Cynllun gweithgaredd gemau

## Disgrifiad
Tasg greadigol, i roi cyfle i'r dysgwyr ymarfer ysgrifennu digidau a symbolau mewn fformat hamddenol a phleserus.

## Paratoi
Argraffwch y taflenni lliwio – casgliad i bob dysgwr
Dewiswch allwedd lliw ac ystod digidau i ddysgwyr ei ddefnyddio, e.e. £ yw coch, c yw porffor, 1 yw glas, ac ati.
Paratowch enghraifft, yn eich allwedd lliw dewisol.

## Adnoddau
Taflenni lliwio

Pensiliau lliw neu bennau llawysgrifen lliw

Marcwyr bwrdd lliw – lliwiau i gyfateb i bennau neu bensiliau y dysgwyr

## Geirfa
£ (punt), c (ceiniog), 1-10 (digidau)

## Cyflwyniad/cyd-destun
Cyflwynwch yr allwedd lliw drwy ysgrifennu ar y bwrdd.
Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu'r symbolau neu'r digidau ar y llun yn hytrach na'i liwio.
Cynigiwch enghraifft wedi'i chwblhau.
Atgoffwch y dysgwyr i gymryd eu hamser gyda digidau a symbolau bach taclus.

| Amser | |
|---|---|
| 5 munud | **Cyflwyniad**<br>Fel yr uchod. |
| 5 munud | **Dosbarthu taflenni lliwio**<br>Dosbarthu casgliad i bob bwrdd neu roi pentyrrau sydd ar gael i ddewis ohonyn nhw ym mlaen y dosbarth. |
| 20-45 munud | **Amser lliwio**<br>Rhowch amser priodol i'r dysgwyr archwilio ac amrywio eu techneg a'u dull. |

**Amrywiadau/ehangu ar y gweithgaredd**
Gellir defnyddio'r cysyniad a'r taflenni lliwio ar gyfer ymarfer ysgrifennu llythrennau neu eiriau hefyd.